Atodiad 1

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
# Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

# Bwrdd Pensiwn Lleol
# Adroddiad Blynyddol
# 2024/25

**Cynnwys**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Rolau a Swyddogaethau | 3 |
| 3. | Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd | 3 |
| 4. | Polisi Gwrthdaro Buddiannau | 4 |
| 5. | Gwybodaeth a Dealltwriaeth | 4 |
| 6. | Rhaglen Waith 2024/25 | 5 |
| 7. | Rhaglen Waith 2025/26 | 7 |

## 1.0 Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Lleol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Bwrdd), sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys sylwebaeth ar y canlynol:

- Manylion unrhyw wrthdaro buddiannau sydd wedi codi mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd;
- Manylion yr hyfforddiant a dderbyniwyd a'r anghenion hyfforddi a nodwyd ar gyfer aelodau'r Bwrdd;
- Crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd yn ystod 2024/25;
- Meysydd pryder neu risg a adroddwyd i'r Bwrdd neu a godwyd ganddo; a
- Y blaenraglen waith ar gyfer 2025/26.

## 2.0 Rolau a Swyddogaethau

Yn unol ag Adran 5 ac Adran 30(1) o Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliad 4A o Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Llywodraethu) 2015, sefydlwyd y Bwrdd ym mis Ebrill 2015. Rôl a chylch gwaith y Bwrdd yw cynorthwyo'r Rheolwr Cynllun (Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, "yr Awdurdod") i sicrhau cydymffurfiaeth â:

- Y cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol;
- Unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun;
- Y gofynion a osodwyd gan y Rheoleiddiwr mewn perthynas â'r Cynllun; a
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun yn effeithiol ac effeithlon.

Disgwylir i'r Bwrdd ategu a gwella trefniadau presennol yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân. Nid yw'n disodli'r trefniadau presennol ac nid yw'n gorff gwneud penderfyniadau. Yn hytrach, mae wedi'i gynllunio i weithredu fel ffrind beirniadol i'r Awdurdod a'i swyddogion pan fyddant yn gweithredu fel rheolwr cynllun.

## 3.0 Aelodaeth a chyfarfodydd y Bwrdd

Roedd aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys deg aelod fel a ganlyn:

- Pum cynrychiolydd cyflogwyr sy'n cynnwys tri aelod o'r Awdurdod, Clerc yr Awdurdod (neu ddirprwy enwebedig) a Thrysorydd yr Awdurdod.
- Pum cynrychiolydd gweithwyr - pedwar ohonynt o bob corff cynrychioliadol sy'n gysylltiedig yn swyddogol â'r Awdurdod ac un yn cynrychioli'r system ddyletswydd gadw.

Darperir crynodeb o'r aelodaeth ar gyfer 2024/25 isod:

| **Enw** | **Rôl** | **Cynrychioli** | **Dyddiadau (wedi'u halinio â dyddiadau cyfarfodydd ar gyfer rhan o flwyddyn)** |
|---|---|---|---|
| Bryan Apsley | Aelod o'r FRA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Dafydd Edwards (Cadeirydd) | Trysorydd yr Awdurdod | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| John Brynmor Hughes | Aelod o'r FRA | Cyflogwr | Blwyddyn lawn |
| Gwynfor Owen | Aelod o'r FRA | Cyflogwr | Blwyddyn iawn |
| Dawn Docx | Cymdeithas Arweinwyr Tân | Cyflogai | 18/04/2025-30/01/2025 |
| Stuart Millington | Cymdeithas Arweinwyr Tân | Cyflogai | 30/01/2025-bresennol |
| Paul Kay | Cymdeithas y Swyddogion Tân | Cyflogai | Blwyddyn iawn |
| Geraint Evans | Cynrychiolydd RDS | Cyflogai | Blwyddyn iawn |
| Terry Ledden | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogai | Blwyddyn iawn |
| Rebekah Uden | Undeb y Brigadau Tân | Cyflogai | Blwyddyn iawn |

Yn ogystal ag aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol, mae'r swyddogion allweddol canlynol yn cefnogi'r Bwrdd ac yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd:

- Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau;
- Rheolwr Pensiynau Gwasanaeth; a
- Arweinydd Technegol (trefniant ar y cyd â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru).

**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cael ei gylchdroi bob dwy flynedd rhwng aelod sy'n cynrychioli cyflogwyr a'r rhai sy'n cynrychioli aelodau'r cynllun.

Etholwyd Dafydd Edwards yn Gadeirydd am y cyfnod 2024/25, gan gynrychioli'r cyflogwr. Mae'r Cadeirydd hefyd wedi'i enwebu i eistedd ar Fwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Cenedlaethol Cymru.

Roedd y Bwrdd i fod i gyfarfod ar bedwar achlysur yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 a chynhaliwyd cyfarfod ar y dyddiadau canlynol:

- 18 Ebrill 2024
- 18 Gorffennaf 2024
- 01 Hydref 2024
- 30 Ionawr 2025

## 4.0 Polisi Gwrthdaro Buddiannau

Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol nad oes gan aelod o fwrdd pensiwn wrthdaro buddiannau. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu fuddiant arall sy'n debygol o amharu ar arfer swyddogaethau person fel aelod o fwrdd pensiwn. Mae'r Ddeddf yn glir nad yw aelodaeth wirioneddol o un o'r Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân ynddo'i hun yn wrthdaro buddiannau, felly ni fyddai'n atal aelod o'r cynllun rhag gwasanaethu ar y Bwrdd.

Mae gan y Bwrdd bolisi ar gyfer rheoli gwrthdaro posibl er mwyn sicrhau nad ydynt yn dod yn wrthdaro gwirioneddol ac mae holl aelodau'r Bwrdd yn gyfarwydd â'r polisi. Yn ogystal, mae gwrthdaro buddiannau yn eitem sefydlog ar holl agendâu'r Bwrdd ac mae unrhyw fuddiannau a nodir gan yr Aelodau yn cael eu cofnodi fel y gellir cymryd camau priodol i reoli'r gwrthdaro.

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau gan unrhyw Aelod, cynghorydd neu fynychwr yn ystod y cyfnod perthnasol.

Gellir dod o hyd i gopi o'r polisi Gwrthdaro Buddiannau yma:

[Polisi Gwrthdaro Buddiannau]

## 5.0 Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Mae'n ofyniad statudol Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 y dylai aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol fod â'r gallu i ddod yn gyfarwydd â materion manwl sy'n gysylltiedig â phensiwn a datblygu gwybodaeth amdanynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Rhaid i bob unigolyn a benodir i'r Bwrdd fod â gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith sy'n ymwneud â phensiynau a materion eraill a ragnodir mewn deddfwriaeth arall.

Dylai aelod o'r Bwrdd fod â dealltwriaeth o'r hyn sy'n berthnasol i'w rôl yn y meysydd canlynol:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân;
- Deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r cynlluniau;
- Gofynion a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau; Gan gynnwys
- Y safonau a'r disgwyliadau a nodir mewn unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau.

Ar ôl penodi, mae'n ofynnol i'r Aelodau gwblhau'r modiwlau hyfforddi ar-lein sydd ar gael ar wefan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o'r Bwrdd a sesiynau hyfforddi parhaus yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd i'r holl Aelodau i'w cynorthwyo i ymgymryd â'u rôl.

Mae'r Rheolwr Cynllun yn cadw cofnodion priodol o'r gweithgareddau dysgu a ddarperir i Aelodau unigol a'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Anogir aelodau'r Bwrdd i nodi eu hanghenion hyfforddi eu hunain er mwyn bod yr hyfforddiant a ddarperir yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol. Darperir hyfforddiant trwy becyn cymorth sector cyhoeddus y rheoleiddiwr pensiynau, trwy ddigwyddiadau allanol fel y rhai a ddarperir gan yr LGA a hefyd trwy hyfforddiant mewnol.

## 6.0 Rhaglen Waith 2024/25

Cyfarfu'r Bwrdd ar bedwar achlysur yn ystod y flwyddyn ariannol a diffiniwyd cwmpas ei waith gan y Cylch Gorchwyl. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei Gylch Gorchwyl yn flynyddol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau i'w hystyried gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Ystyriwyd y fersiwn ddiweddaraf yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2025 a gwnaed cynigion i leihau nifer yr aelodau sydd eu hangen i gyrraedd cworwm i dri (chwech gynt). Yn ogystal, dylai pob cyfarfod fod ag o leiaf un cyflogwr ac un cynrychiolydd gweithiwr.

Gellir dod o hyd i'r cylch gorchwyl drwy'r ddolen ganlynol:

Bwrdd Pensiwn Lleol - Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)

Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 ystyriwyd y materion penodol canlynol gan y Bwrdd:

- Adolygu a chymeradwyo'r Cylch Gorchwyl;
- Ystyried yr her gyfreithiol genedlaethol sy'n ymwneud â threfniadau'r cynllun pensiwn trosiannol (Dyfarniad McCloud);
- Ystyried y mater cyfreithiol sy'n ymwneud â'r trefniadau pensiwn ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad (Dyfarniad O'Brien);
- Diweddariadau mewn perthynas â phrisiad GAD 2020 gan gynnwys cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru;
- Adolygu a chyflwyno'r cynnig ar gyfer newidiadau i gyfradd cyfraniadau gweithwyr yn dilyn prisiad GAD 2020;
- Diweddariadau gan Fwrdd Cynghori Cynllun Cymru;
- Diweddariad gwybodaeth a hyfforddiant;
- Diweddariadau ar achosion Ombwdsmon Pensiwn; a
- Diweddariad ar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun ac adolygiad i'r gofrestr risg.
- Mae'r materion o arwyddocâd i'r Rheolwr Cynllun yn cynnwys gweinyddu heriau cyfreithiol a chynigion i ddiwygio'r Cylch Gorchwyl.

Mae pob agenda hefyd yn cynnwys yr eitemau sefydlog canlynol:

- Datganiad o Fuddiant;
- Cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân sy'n canolbwyntio ar aelodaeth a chwynion mewnol ac achosion a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon Pensiynau;
- Adroddiad Diweddaru Gweinyddwyr (Cronfa Bensiwn Dyfed) sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ac ansawdd data;
- Diweddariad ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar y cynllun;
- Diweddariad ar y Bwrdd Cynghori'r Cynllun;
- Hyfforddiant i aelodau o'r LPB;
- Cofrestr Risg; a
- Materion ar gyfer escalation i FRA llawn.

Ers sefydlu'r Bwrdd Pensiwn Diffoddwyr Tân Lleol yn 2015, mae gwaith y Bwrdd wedi cael ei lunio gan aelodau'r Bwrdd a chan swyddogion sy'n cefnogi'r Bwrdd. Mae rhai adroddiadau rheolaidd wedi'u datblygu a'r rhain yw:

- Adroddiad Diweddaru Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am feysydd o waith pensiwn sylweddol, ac sy'n cynnwys materion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â gwella gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Bwrdd, mae'r adroddiad rheolaidd hwn yn ysgogi trafodaeth yn y Bwrdd am effaith materion ar aelodau'r Cynllun pensiwn ac am sut mae llwythi gwaith yn cael eu rheoli. Mae hyn yn helpu i gyflawni pwrpas y Bwrdd o sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol;
- Adroddiad Diweddaru Cronfa Bensiwn Dyfed sy'n cael ei gynhyrchu gan y gweinyddwyr ac sy'n rhoi sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Yn ogystal â darparu diweddariadau rheoleiddiol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion llwyth gwaith penodol, megis, cysoni Isafswm Pensiwn Gwarantedig, ansawdd data, apeliadau, toriadau a lefelau gweithgarwch ar yr offeryn 'Fy Mhensiynau Ar-lein'; a
- Meysydd penodol o'r Gofrestr Risg sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Reolwr y Cynllun ac sy'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod, gydag unrhyw ddiwygiadau yn cael eu hamlygu. Mae hyn yn caniatáu i'r Bwrdd gadw golwg ar y risgiau allweddol a'r mesurau rheoli sydd wedi'u cynllunio i reoli'r risgiau hynny.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd uchod y gellir eu cyrchu drwy'r ddolen ganlynol: Bwrdd Pensiwn Lleol

## 8.0 Rhaglen Waith 2025/26

Mae Bwrdd Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnal rhaglen waith sy'n cael ei hystyried ym mhob cyfarfod. Nawr bod y Bwrdd wedi cwblhau nifer o weithgareddau hyfforddi, bydd yn dechrau dewis pynciau i'w dadansoddi'n fanwl gyda'r bwriad o wneud argymhellion i'r Awdurdod yn ôl y bo angen.

Mae'r Rhaglen Waith ar gyfer 2025/26 fel y nodir isod:

**Blaengynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn Lleol 2025/26**

| **Eitem yr agenda** | Cyfarfod 1 | Cyfarfod 2 | Cyfarfod 3 | Cyfarfod 4 |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad o aelodaeth a chadarnhau dyddiadau'r cyfarfodydd | X | | | |
| Adroddiad diweddariad gwasanaeth | X | X | X | X |
| Adroddiad diweddariad y gweinyddwr | X | X | X | X |
| Heriau cyfreithiol a materion rheoleiddio | X | X | X | X |
| Bwrdd Cynghori Cynlluniau Cymru | X | X | X | X |
| Cofrestr Risg | X | X | X | X |
| Sefydlu Aelodau | Mae hyn yn parhau wrth i aelodau newydd gael eu penodi i'r LPB | | | |
| Dadansoddi anghenion hyfforddi | X | | | |
| Diweddariad hyfforddi | X | X | X | X |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau – agweddau ar lywodraethu da | | X | X | X |
| Adroddiad Blynyddol | X | | | |
| Diweddariad polisi yn ôl disgresiwn | X | | | |
| Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl | | | | X |
| Eitemau o arwyddocâd i'w cyfeirio i'r Awdurdod Tân ac Achub | X | X | X | X |